Clwb Music Cyf
Rhif Cwmni / Company Number:
12617412

Clwb Ifor Bach
11 Womanby St
Caerdydd / Cardiff, F10 1BR

post@clwbmusic.cymru

Teitl Swydd: Swyddog Gweinyddol a Marchnata Clwb Music
Cyflog: £20,000 - 22,000 + Pensiwn
Oriau: 37.5 yr wythnos
Gwyliau: 33 diwrnod (gan gynnwys gwyliau banc)
Cyfnod y Cytundeb: Parhaol
Cyfnod Prawf: 3 mis
Lleoliad: Gweithio o gartref ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o ddychwelyd i'n swyddfa yng nghanol y ddinas pan fydd yn ddiogel.

Dyddiad Cau: 12pm, Llun, 26/07/21

Gigfan sefydledig yw Clwb Ifor Bach sydd wedi bod yn gartref i gerddoriaeth newydd am dros 35 mlynedd. Am y chwe blynedd diwethaf mae Clwb wedi bod yn un o brif hyrwyddwyr annibynnol Caerdydd, yn hyrwyddo digwyddiadau ar draws y wlad, rhaglennu cerddoriaeth byw ar gyfer amryw o ddigwyddiadau a chyflwyno yr ŵyl aml-leoliad dinesig, Gŵyl Sŵn.
Ym mis Ebrill 2021, fe lansiwyd Clwb Music, cwmni cerddoriaeth annibynnol sy'n cynnwys label recordiau, cwmni rheoli a chyhoeddi gyda'r nod o ddatblygu a chydweithio ag artistiaid o Gymru.

Mae Clwb Ifor Bach yn edrych i recriwtio Swyddog Marchnata Digidol creadigol sydd gyda diddordeb dwys mewn cerddoriaeth gyfoes i ymuno â'r tîm marchnata. Mi fydd gan yr ymgeisydd del-frydol obsesiwn gyda cerddoriaeth a profiad mewn rôl tebyg neu mewn rôl o fewn y diwydiant cerddoriaeth.

Bydd yr unigolyn llwyddiannus yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni datblygiad strategol yr agwedd newydd hon ar waith Clwb. Bydd angen iddynt fod â diddordeb brwd iawn mewn cerddoriaeth gyfoes a dealltwriaeth o fecaneg y diwydiant cerddoriaeth. Bydd cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys y weinyddiaeth graidd sy'n gysylltiedig â'r gangen reoli, y label recordio a'r cwmni cyhoeddi, yn ogystal â chyflawni strategaeth farchnata Clwb Music. Cliciwch yma i gael y disgrifiad swydd llawn.

Mi fydd y cyfrifoldebau yn cynnwys rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol gwahanol, creu hysby-sebion digidol a chyflwyno adroddiadau dadansoddol ar werthiant a gweithgareddau Clwb Ifor Bach.

Prif Gyfrifoldebau:

Gwaith gweinyddol:

- Rheoli dyddiadau cau a chreu llinellau amser ar gyfer dyddiadau teithiau a rhyddhau
- Rheoli Cronfa Ddata ac Asedau (gan gynnwys y wasg, toriadau, lluniau, fideos, cytundebau etc)
- Yn gyfrifol am siop nwyddau (gan gynnwys archebu a stoc)
- Cofrestru caneuon a metadata (PRS / MCPS / PPL)

Marchnata:

- Chwarae rôl allweddol wrth ddarparu strategaeth y wasg + ysgrifennu copi (gan gynnwys datganiadau i'r wasg ac adolygiadau ac ati).
- Rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Clwb Music a chysylltu ag artistiaid ynghylch eu cynnwys digidol
- Rheoli sianeli digidol ychwanegol (gan gynnwys gwefan, Youtube, Spotify, BBC Uploader, Mailchimp ac ati)
- Mân waith dylunio a phrofiad golygu fideo.

Hanfodol

- Rydyn ni'n chwilio am rywun sydd â diddordeb mawr mewn cerddoriaeth, gwyliau a digwyddiadau cyfoes
- 1 - 2 flynedd o brofiad yn gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth
- Profiad blaenorol o PRS / PPL / MCPS
- Profiad o reoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol mewn swyddogaeth broffesiynol
- Sgiliau cyfathrebu a threfnu rhagorol
- Sgiliau datrys problemau a dadansoddi cryf
- Y gallu i osod blaenoriaethau a chwrdd â therfynau amser.
- Rheoli sawl prosiect cydamserol yn effeithiol.

Dymunol

- Profiad blaenorol o weithio i label recordio, cwmni rheoli neu gyhoeddi
- Rheoli cronfa ddata a phrofiad gweinyddol
- Sgiliau ysgrifennu copi rhagorol gan gynnwys y gallu i ysgrifennu cynnwys a broliannau ar gyfer gwefannau
- Profiad o ddefnyddio Mailchimp neu lwyfannau cylchlythyr amgen
- Cysylltiadau â chyfryngau cerddoriaeth a chelfyddydau cyfredol
- Gwybodaeth sylfaenol am Photoshop ac Adobe Creative Suite arall
- Galluoedd golygu fideo sylfaenol
- Profiad o ddefnyddio WordPress neu CMS tebyg